GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG

CANLLAWIAU AC AMODAU

**GRANTIAU RHAGLEN**

# A CANLLAWIAU

## 1 AMCANION

Amcan y Cynllun Grantiau Rhaglen yw cefnogi rhaglenni cyhoeddi i sicrhau bod amrywiaeth o lyfrau Cymraeg ar gael ar gyfer plant ac oedolion a'u bod o'r safon uchaf posibl o ran cynnwys a diwyg. Anelir y cynllun yn bennaf at lyfrau y mae apêl eang iddynt ac at gyhoeddwyr sydd eisoes yn cynhyrchu'n sylweddol mewn meysydd perthnasol.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn gweinyddu Cynllun Grantiau Cyhoeddi Llyfrau Unigol, sy'n cefnogi llyfrau mwy cyfyng eu hapêl yn ogystal â llyfrau poblogaidd gan gyhoeddwyr llai. Ceir canllawiau ar wahân ar gyfer y cynllun hwnnw. Yn gyffredinol, dan amgylchiadau eithriadol yn unig y dylai cyhoeddwyr rhaglen ymgeisio am grantiau unigol ac argymhellir yn gryf na ddylai'r **ceisiadau/nifer y dyfarniadau** fod yn fwy na thua 10% o gyfanswm y llyfrau rhaglen mewn blwyddyn.

## 2 CYMHWYSTER

***Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?***

Hysbysebir y cyfle i gyhoeddwyr fod yn gyhoeddwyr rhaglen bob pum mlynedd ac mae'r cynllun yn agored i geisiadau gan unrhyw gyhoeddwr

- sy'n gallu cynnig rhaglen o wyth llyfr, neu ragor, ar gyfer y flwyddyn dan sylw, mewn categorïau perthnasol;
- sydd wedi cyhoeddi cyfartaledd o wyth neu ragor o lyfrau yn flynyddol yn ystod y tair blynedd blaenorol gyda chefnogaeth Cyngor Llyfrau Cymru.

Hysbysebir nesaf yn ystod 2026-27 ar gyfer cyhoeddwyr rhaglen 2028-33.

***Pa lyfrau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth?***

- Mae'r cynllun yn cefnogi ystod eang o lyfrau poblogaidd i oedolion a phlant, gan gynnwys llyfrau hamdden, llyfrau ffeithiol, cofiannau a ffuglen.
- **Eithriadau:** Nid yw'r cynllun wedi'i anelu at lyfrau mwy cyfyng eu hapêl, gwerslyfrau addysgiadol, llyfrau gramadeg ffurfiol, traethodau ymchwil heb eu hailysgrifennu, llyfrau cain na llyfrau o ddiddordeb lleol iawn.
- **Maint**: Fel arfer, disgwylir i bob llyfr, ac eithrio llyfrau plant bach, gynnwys o leiaf 48 tt. o destun. Dylid trafod eithriadau i'r rheol hon â'r Adran Datblygu Cyhoeddi cyn cyflwyno cais.
- **Dwyieithrwydd:** Mae'n bosib cynnwys rhai llyfrau dwyieithog mewn rhaglen: dylai'r llyfr fod yn gyfan gwbl ddwyieithog *neu* dylai'r rhan Gymraeg o'r llyfr fod yn uned sylweddol, hunangynhaliol o fewn y llyfr.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

- **Adargraffiadau/Argraffiadau Newydd:** Ni chaniateir defnyddio'r gronfa hon ar gyfer adargraffiadau. Mae cronfa wahanol ar gyfer hynny. Fodd bynnag, os yw'r cyhoeddwr yn ystyried argraffiad newydd sy'n cynnwys cyfran sylweddol o ddeunydd newydd neu fwy diweddar, gellid ystyried ei gynnwys yn y rhaglen a dylid trafod hynny gyda swyddogion yr Adran Datblygu Cyhoeddi. Gweler y Canllawiau Grant Adargraffu.

Lle bo ansicrwydd ynglŷn â chymhwyster teitlau arfaethedig, gofynnir i'r cyhoeddwyr rhaglen drafod eu prosiectau gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi cyn iddynt gyflwyno cais.

## 3 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Wrth weinyddu'r cynllun hwn, mae Cyngor Llyfrau Cymru yn anelu at gefnogi amrywiaeth eang o ddeunydd poblogaidd ar draws y rhaglenni a ariennir. Ni fydd y Cyngor yn cefnogi gormod o deitlau mewn unrhyw un categori.

Dyma'r **blaenoriaethau** cyfredol ar gyfer y math o lyfrau y mae'r Cyngor yn dymuno eu cefnogi trwy'r cynllun hwn:

- llyfrau poblogaidd, da, lle mae'r gwerthiant yn debyg o fod yn uwch na'r targed blynyddol;
- nofelau storïol, poblogaidd;
- hunangofiannau poblogaidd, a hunangofiannau sy'n cynnig amrywiad ar y ffurf gronolegol draddodiadol, gan roi ystyriaeth yn benodol i hunangofiannau gan ferched yn ogystal â dynion o gefndiroedd ethnig amrywiol.
- llyfrau poblogaidd sy'n gynrychioliadol o ran amrywiaeth cymdeithas a chydag ystyriaeth wedi ei roi i leisio profiadau bywyd awduron du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, yn ogystal ag eraill gyda'r priodoleddau a amddiffynnir yn neddf Cydraddoldeb 2010.
- llyfrau ffeithiol sydd â rhediad argraffu sy'n gywerth â'r targed blynyddol neu fwy;
- ffuglen wreiddiol i blant hŷn a phobl ifanc;
- llyfrau i ddysgwyr y Gymraeg.

Cloriennir ceisiadau yn ôl y **meini prawf** canlynol:

- safon debygol y cynnwys, yn ôl gwaith blaenorol yr awduron a restrir;
- safon debygol y diwyg, yn ôl cynnyrch blaenorol y cyhoeddwr;
- gallu'r cyhoeddwr i olygu, marchnata, a dosbarthu'r llyfr trwy Gymru gyfan;
- gallu a record y cyhoeddwr o ran cadw at amserlen gyhoeddi a darparu gwybodaeth ddibynadwy ymlaen llaw am lyfrau sydd i ddod;
- y galw am y llyfrau. Bydd y Cyngor yn ystyried sut y mae'r llyfrau a gynigir yn debyg o lenwi bylchau yn y farchnad;
- parodrwydd y cyhoeddwr i gefnogi deunydd a allai ddenu darllenwyr newydd;
- targedau gwerthiant ar gyfer y deunaw mis cyntaf.
- rhediadau argraffu: rhaid cyhoeddi digon i sicrhau bod stoc ar gael ar gyfer blwyddyn o leiaf ac os gwneir cyfres o rediadau argraffu, dylai'r argraffiad cyntaf fod yn ddigonol i ddiwallu'r farchnad am o leiaf dri mis ar ôl cyhoeddi.
- gwerth am arian.

**Bydd cystadlu brwd am y grantiau hyn: y mae'n bwysig, felly, bod pob ymgeisydd yn dadlau ei achos yn y dull llawnaf posibl.**



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

## 4 Y GRANT

- Bydd y Cyngor Llyfrau yn tendro am y grant hwn bob pum mlynedd.
- Fel rhan o'r broses, bydd rhaid i'r Cyngor Llyfrau gael sicrwydd bod gan y cyhoeddwr yr adnoddau gweinyddol ac ariannol i ymgymryd â'r teitlau y cyflwynir ceisiadau amdanynt cyn dyfarnu'r grant.
- Gydag amser, gall cyfran pob cyhoeddwr o'r gyllideb gynyddu neu ostwng yn ôl gallu'r cyhoeddwr i gyrraedd y targedau y cytunir arnynt wrth gynnig grant.
- Yn dilyn y broses dendro, cynigir cyllideb i bob cyhoeddwr llwyddiannus i gynorthwyo gyda chostau cynhyrchu nifer penodol o lyfrau yn flynyddol am gyfnod y tendr, yn ddibynnol ar barhad cyllid Llywodraeth Cymru i'r Cyngor Llyfrau.
- Nid pwrpas y grant hwn yw talu am orbenion cyffredinol y cwmni.

## 5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

### Y TENDR BOB PUM MLYNEDD

- Hysbysebir y gwahoddiad i dendro am y grantiau hyn yn eang bob pum mlynedd.
- Bwriad y broses hon yw cynnal arolwg cyffredinol o'r llyfrau a noddir drwy'r grant cyhoeddi a'r swyddi a gefnogir i gynhyrchu'r llyfrau hynny.
- Mae'n gyfle i'r Cyngor a'r cyhoeddwyr aros ac ystyried yr hyn mae'r grant yn ei gyfanrwydd yn ei gynnig i'r diwydiant a sut mae amcanion busnes y cyhoeddwyr ac amcanion strategol y Cyngor yn cyd-daro i gyflawni'r gorau dros y diwydiant.
- Bydd yn gyfle i'r cyhoeddwyr hynny sy'n dal y grant ar hyn o bryd ailgyflwyno'u hachos dros fod yn gyhoeddwr rhaglen ac yn gyfle i gyhoeddwyr newydd wneud achos dros fanteisio ar y buddion hynny drwy ddod yn gyhoeddwr rhaglen am y tro cyntaf, yn ogystal â bod yn gyfle i bob cyhoeddwr ailgyflwyno eu costau a gwneud achos dros ystyried lefel eu grant blynyddol.
- Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn cynnig sefydlogrwydd i'r cyhoeddwyr am y pum mlynedd sy'n dilyn, yn ddibynnol, fel arfer, ar gyllid Llywodraeth Cymru i'r Cyngor. Bydd hefyd yn sicrhau bod yr oriau golygyddol yn cyd-daro dros yr un cyfnod.
- Bydd canllawiau'r tendr yn rhoi arweiniad i sut i gyflwyno'r cais.
- Unwaith y derbynnir cynnig am grant bydd y cyhoeddwr yn cael cynnig cytundeb ffurfiol sy'n seiliedig ar y canllawiau a'r amodau hyn. Rhaid i'r cyhoeddwr lofnodi'r cytundeb cyn y gellir rhyddhau taliadau'r grant rhaglen.

### Y DREFN FLYNYDDOL

- Unwaith y dyfernir y tendr bydd disgwyl i'r cyhoeddwyr gyflwyno gwybodaeth am eu rhaglen ar gyfer y flwyddyn ganlynol ym mis Hydref bob blwyddyn ar gyfer ystyriaeth gan yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi ym mis Tachwedd. Bydd cyfle i newid y teitlau rhwng Tachwedd a diwedd Ionawr drwy ymgynghori â'r Swyddog Datblygu Cyhoeddi. Bydd y rhaglenni'n cael eu cadarnhau'n derfynol yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi ym mis Mawrth bob blwyddyn.
- Bydd y Swyddog Datblygu yn anfon ffurflenni pwrpasol at bob cyhoeddwr yn gofyn iddynt gyflwyno rhestrau manwl o'r llyfrau plant a'r llyfrau oedolion yn nhrefn eu cyhoeddi.
- Ni fydd y Cyngor yn gofyn am weld teipysgrifau'r teitlau arfaethedig nac am daflenni gwybodaeth (AIs), ond gofynnir am ddisgrifiadau byr sy'n cynnwys digon o fanylion i alluogi'r Cyngor i farnu pa fath o lyfr a gynigir. Derbynnir, hefyd, y bydd llawer o'r llyfrau hyn yn anorffenedig pan gyflwynir y ceisiadau.
- Caniateir i'r cyhoeddwr gyfnewid rhai teitlau o fewn y flwyddyn, cyn belled nad yw hynny'n amharu ar gydbwysedd rhaglen y cyhoeddwr a darpariaeth y Cyngor yn



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

gyffredinol (h.y. llyfrau yr holl gyhoeddwyr gyda'i gilydd) a'i fod yn diogelu gwerth-am-arian. Dylid trafod unrhyw newidiadau gyda'r Swyddog Datblygu Cyhoeddi.

## 6 TALU'R GRANTIAU

- Telir y Grant Rhaglen yn dri thaliad cyfartal ar gyfer tri chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Rhennir y pedwerydd taliad yn ddau, y naill i'w dalu ar ddechrau'r pedwerydd chwarter a'r llall tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Os methir â chyhoeddi'r rhaglen a addawyd cyn diwedd y flwyddyn ariannol tynnir y grant cyfatebol am y llyfr(au) coll o'r taliad olaf hwnnw.

## 7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Gan nad yw'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Cymraeg yn gweld teipysgrifau ymlaen llaw o dan y cynllun hwn, mae'r deunydd cyhoeddedig yn cael ei gloriannu er mwyn:

- sicrhau bod y cynnyrch yn rhoi gwerth am arian;
- mesur perfformiad y wasg yn erbyn y targedau a osodwyd;
- rhoi ymateb i'r cyhoeddwyr ynglŷn â'u cynnyrch a'u perfformiad;
- casglu tystiolaeth wrth ystyried cynlluniau'r cyhoeddwyr ar gyfer y tendr canlynol.

Mae'r Adran Datblygu Cyhoeddi yn llunio adroddiad cloriannu blynyddol ar gynnyrch pob cyhoeddwr rhaglen. Paratoir yr adroddiad ar sail sylwadau'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Cymraeg ac ymgynghori ag adrannau eraill y Cyngor. Yn achos llyfrau plant bydd aelodau'r Is-bwyllgor Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen a phanel beirniaid Gwobr Tir na n'Og hefyd yn cynnig barn. Anfonir yr adroddiad hwn at y cyhoeddwr ac fe'i trafodir wedyn mewn cyfarfod cloriannu rhwng Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau, swyddogion yr Adran Datblygu Cyhoeddi, aelodau'r Is-bwyllgor a'r cyhoeddwr. Amcan y cyfarfod fydd cytuno ar nifer o bwyntiau gweithredol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas cadarnhaol sydd i'r cloriannu. Y nod yw cynnig ymateb i'r cyhoeddwyr a fydd yn gymorth iddynt ddatblygu a chryfhau eu gwaith.

Gosodir targedau blynyddol yn y cyfarfodydd cloriannu.

Gosodir targedau gwerthiant yn flynyddol. Bydd y targedau yn realistig ond yn heriol ac yn unigryw i bob cyhoeddwr ac yn cyfrannu at y targed cyfun y mae'r Cyngor yn ei gael gan Lywodraeth Cymru.

Bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi hefyd yn holi am ffigurau gwerthiant (6 mis, 18 mis a 3 blynedd) yn flynyddol ym mis Medi.

Mae'r Adran Datblygu Cyhoeddi, yn ogystal, yn cadw'r hawl i holi am dystiolaeth o wariant ar gynhyrchu teitlau penodol pan fo angen.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

# B AMODAU CYFFREDINOL

1 Cynigir y grant rhaglen ar sail yr wybodaeth sydd yn y tendr a'r ceisiadau blynyddol, ac unrhyw ohebiaeth atodol. Bydd y Cyngor yn cloriannu cynnyrch y rhaglen o ran gwerth-am-arian, ac os bernir na chafwyd hynny mae'n bosibl i'r Cyngor gwtogi grant y flwyddyn ddilynol.

2 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant gydymffurfio ag unrhyw amodau a gofynion ychwanegol a nodir yn y cytundeb ffurfiol, y cynnig grant blynyddol, neu mewn unrhyw lythyr eglurhaol.

3 Bydd gan y Cyngor hawl i ofyn am brawf o unrhyw daliad allanol gan y cyhoeddwr, e.e. anfoneb am argraffu dramor, taliadau am ddarluniau, etc.

4 Cynigir y grant rhaglen ar gyfer y rhestr lyfrau y cytunir arni rhwng y cyhoeddwr a'r Cyngor cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Rhaid i'r cyhoeddwr hysbysu'r Cyngor ymlaen llaw, trwy lythyr neu e-bost, am unrhyw newidiadau yn y rhaglen. Cytunir i gyfnewid teitlau cyn belled ag nad yw unrhyw newidiadau yn effeithio'n ormodol ar gydbwysedd y rhaglen yn gyfan.

5 Dylid cynnwys y gydnabyddiaeth a ganlyn ym mhob llyfr y dyfarnwyd grant iddo: 'Mae'r cyhoeddwr yn cydnabod cefnogaeth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru'. Gellir hefyd ddefnyddio logo swyddogol y Cyngor sydd ar gael drwy ofyn i staff dylunio'r Cyngor. Os na chydnabyddir y Cyngor yn y modd priodol, ceidw'r hawl i atal hyd at 10% o'r grant.

6 Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r grant hwn nac unrhyw gyfeiriadau eraill at y Cyngor mewn unrhyw ffordd i awgrymu fod y Cyngor yn cymryd neu'n derbyn cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti am ddyledion neu rwymedigaethau'r sawl sy'n derbyn y grant (gweler rhif 23).

7 Disgwylir y bydd pob teitl mewn rhaglen yn cael ei gyhoeddi mewn da bryd cyn diwedd Mawrth. Bydd unrhyw deitl a dderbynnir gan y Ganolfan Ddosbarthu ar ôl y dyddiad a bennir (ac a hysbysir ymlaen llaw i'r cyhoeddwyr) yn cael ei gyfri'n rhan o raglen y flwyddyn ganlynol a bydd swm sy'n cyfateb i grant y llyfr yn cael ei docio o daliad ola'r flwyddyn.

8 Mae'n ofynnol i bob llyfr sy'n derbyn cymorth grant ddangos rhif ISBN 13 digid a chôd bar ar ei glawr.

9 Dylai'r wybodaeth gychwynnol am lyfr sy'n derbyn cymorth grant gyrraedd Swyddog Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf chwe mis cyn cyhoeddi'r llyfr, yn ôl gofynion y Cyngor.

10 Dylai'r cyhoeddwr adolygu'r wybodaeth sydd ar Gwales am lyfrau sy'n cael grant, yn gyson, cyn ac ar ôl cyhoeddi'r llyfr. Dylai unrhyw newidiadau o ran pris ac argaeledd gael eu nodi'n rheolaidd nes bod y llyfr allan o brint, a'r cyhoeddwr wedi penderfynu peidio â'i adargraffu.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

11 Yn achos adargraffiadau neu argraffiadau newydd, rhaid dangos blwyddyn gyhoeddi'r adargraffiad neu'r argraffiad newydd yn glir.

12 Fel arfer mae'n rhaid sicrhau o leiaf chwe mis rhwng cyhoeddi llyfrau tebyg gan yr un awdur.

13 Rhaid i'r awdur dderbyn cytundeb gan y cyhoeddwr, a'i lofnodi. Dylai'r breindal gydymffurfio â'r telerau masnachol arferol a dylid ei dalu yn rheolaidd. Rhaid anfon datganiadau ariannol at yr awdur o leiaf unwaith bob blwyddyn.

14 Dylid nodi nifer y copïau a gyhoeddir ar y ffurflen hawlio.

15 Bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn hawlio hyd at bedwar copi o'r llyfr o stoc y cyhoeddwr yn y Ganolfan Ddosbarthu at ddibenion cloriannu.

16 Mae'n ofynnol hysbysu'r Cyngor Llyfrau am unrhyw arian a geir o ffynonellau eraill tuag at gyhoeddi llyfr rhaglen, naill ai ar y ffurflen gais neu'r ffurflen hawlio.

17 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn grant fod ar gael drwy Ganolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru ar delerau'r Cyngor Llyfrau. Dylai'r llyfr fod ar gael i lyfrwerthwyr ar y telerau masnachu arferol (h./y. lleiafswm o 33.33% o ddisgownt) oni chytunir fel arall.

18 Mae'n amod bod llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn cael eu danfon i Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau cyn neu ar yr un pryd ag y byddant ar gael trwy ddulliau eraill i unrhyw ddosbarthwr neu werthwr, ac yn cael eu rhyddhau i gael eu gwerthu ar yr un amser gan y cyhoeddwr a'r Ganolfan Ddosbarthu.

19 Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg o lyfr, a bod un ohonynt wedi derbyn grant cyhoeddi, yna mae'n amod bod y ddau fersiwn ar gael trwy'r Ganolfan Ddosbarthu yn unol â'r telerau a nodir yn amodau 17 a 18.

20 Mae'n amod y dylai llyfrau grant fod mewn print ac ar gael yn y Ganolfan Ddosbarthu am o leiaf flwyddyn ar ôl eu cyhoeddi. Disgwylir i'r rhediad cyntaf fod yn ddigonol i gyrraedd disgwyliadau'r farchnad am o leiaf dri mis ar ôl cyhoeddi. Os bydd llyfr yn mynd allan o brint cyn pen blwyddyn, a'r cyhoeddwr yn anfodlon adargraffu, gall y Cyngor hawlio ad-daliad o hyd at £1,000 y llyfr. (Eithrir cydargraffiadau rhyngwladol a llyfrau penodol dymhorol, megis rhai llyfrau Nadolig.)

21 Yn achos llyfrau grant, mae'n amod na ddylid gostwng pris gwerthu'r llyfr yn sylweddol (megis mewn arwerthiant hanner pris) am gyfnod o ddeunaw mis ar ôl ei gyhoeddi. (Nid yw hyn yn rhwystro cyhoeddwr rhag cael 'cynigion arbennig' neu ostyngiadau eraill er mwyn hyrwyddo llyfrau.)

22 Rhaid i bob cyhoeddwr ddarparu ffigyrau gwerthiant ar gyfer pob teitl am gyfnod o dair blynedd o leiaf o'r dyddiad cyhoeddi.

23 Mae'r cyhoeddwr ar ei ran ei hun (ac eraill) yn cyfamodi gyda Chyngor Llyfrau Cymru a'i olynwyr y bydd ef ar bob adeg wedi hyn yn rhyddarbed ac yn indemnio Cyngor Llyfrau Cymru a'i eiddo rhag pob achos, cost, hawliad a chais a gyfyd yn sgil torri unrhyw gyfraith gwlad.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

24 Mae disgwyl i'r Cyhoeddwyr wneud ac ysgwyddo'r gost am waith marchnata sylfaenol y gyfrol. Golyga hyn: drefnu a thalu am bresenoldeb eu staff eu hunain a'r awdur/golygydd mewn digwyddiad; hysbysebu sylfaenol mewn papurau bro ayyb.; argraffu gwahoddiadau, posteri (yn enwedig yn achos argraffwyr-gyhoeddwyr); gwneud datganiadau i'r wasg a gweinyddu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

25 Disgwylir i'r cyhoeddwyr rhaglen anfon copi o'u cyfrifon blynyddol i'r Cyngor pan fyddant wedi'u harchwilio neu eu paratoi gan gyfrifydd.

26 Disgwylir i lyfr a anelir at ddysgwyr sy'n derbyn grant gan y Cyngor gydymffurfio â safonau iaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Felly, rhaid i'r llyfrau fynd trwy Dim Golygyddol CLLC i'w golygu i'r safonau hynny, yn ogystal a'u prawf ddarllen. O fynd trwy'r broses hon bydd y llyfr yn gallu dwyn brand cyfres Amdani a chael ei hyrwyddo trwy rwydwaith y Ganolfan. Dylai'r cyhoeddwr ymgynghori â Thîm Dylunio CLLC er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn cydymffurfio â'r gyfres.

28 Disgwylir i bob llyfr gwreiddiol sy'n derbyn grant gan y Cyngor gael ei gyhoeddi fel e-lyfr yn ogystal a'i osod ar ffolio.cymru ar yr un pryd a'r cyhoeddiad papur neu o fewn chwe mis, fan bellaf.

Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:

Dr Lynne Williams
Adran Datblygu Cyhoeddi
Cyngor Llyfrau Cymru
Castell Brychan
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 2JB
Ffôn: 01970 629554
E-bost: grantiau.cymraeg@llyfrau.cymru

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG /
AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government